RHIFYN
ISSUE
06
31/03/22

Tafod ein Teulu

"Gyda'n gilydd, gallwn..."

Teulu hapus a chroesawgar sy'n annog Cymry Cymraeg balch.

Dyddiadau Allweddol
Key Dates

08/04/22 – Diwedd Tymor y Gwanwyn (Gwyliau Pasg)
08/04/22 – End of Spring Term (Easter Holidays)
25/04/22 – Dychwelyd i'r ysgol (Tymor yr Haf)
25/04/22 – Return to school (Summer Term)

Neges Iechyd a Diogelwch

Mae achosion COVID-19 wedi bod yn cynyddu ymysg y plant yn ddiweddar. Rydym wedi hysbysu y dosbarthiadau sydd wedi cael eu heffeithio. Byddwn yn hysbysu rhieni pan fydd y canllawiau yn newid

Cofiwch os oes angen profion arnoch
i brofi eich plant, mae stoc ar gael yn yr ysgol.

Health and Safety Message

COVID-19 cases have been increasing amongst the children recently. We have notified the classes that have been affected. We will inform parents when the guidance changes.

Remember if you need tests to test your children, stock is available at school.

Diogelu

Roedd 21 Mawrth 2022 yn foment hanesyddol i blant a'u hawliau yng Nghymru. Ar y diwrnod hwn death cosbi plant yn gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru. Rydyn ni eisiau amddiffyn plant a'u hawliau er mwyn rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddyn nhw.

Safeguarding

21 March 2022 was a historic movement for children and their rights in Wales. From this day on, physically punishing children became illegal in Wales. We want to protect children and their rights, to help give them the best start in life.

Diwrnodau HMS/INSET Days 2021-2022

Dydd Llun/Monday
06.06.2022

Dydd Gwener/Friday
01.07.2022

Hwyl fawr Mrs Hobbs / Goodbye Mrs Hobbs

Fe ffarweliom â Mrs Hobbs y mis hwn. Mae Mrs Hobbs wedi bod yn gweithio yn nosbarth Jac y Jwc a nifer o ddosbarthiadau'r Adran Iau. Hoffem ddiolch yn fawr iddi am ei holl waith a dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd.

We said goodbye to Mrs Hobbs this month. Mrs Hobbs has been working in Dosbarth Jac y Jwc and several classes in the junior department. We would like to thank her for all her work and wish her well in her new job.

Hawl Mis Mawrth - Mae hawl gan bawb i fod y gorau gallwch fod.
March's Right – You have the right to be the best you can be.

Gwerth Tymor y Gwanwyn - Gwerthfawrogiad

Spring Term Value - Appreciation

Ewch i/*Remember to visit*
www.yggevanjames.co.uk

Eisteddfod Ranbarthol yr Urdd/ Urdd Regional Eisteddfod

Llongyfarchiadau i'r holl ddisgyblion fu'n cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd. Roedd y cantorion a'r llefarwyr i gyd yn wych. Hoffem ddymuno pob hwyl i Gwenno a Mari a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych wedi iddynt ennill cystadleuaeth y ddeuawd.

Congratulations to the pupils who represented the school in the Urdd Eisteddfod. The singers and reciters were excellent. We would like to wish Gwenno and Mari all the very best in the Urdd National Eisteddfod in Dinbych after winning the duet competition.

Dyddiau i ddathlu/Celebration days

Diolch yn fawr i Senedd yr ysgol am drefnu dydd y Trwynau Coch. Gwerthwyd cannoedd o drwynau coch ar iard yr ysgol a daeth pob disgybl i'r ysgol wedi gwisgo fel un o'u harwyr. Roedd gwisgoedd pob un yn arbennig. Diolch i'n disgyblion a'u teuluoedd am fod mor hael. Yn ogystal, roedd Diwrnod y Llyfr yn gyfle i wisgo fel cymeriad o lyfr a mwynhau gweithgareddau a gemau darllen drwy gydol y dydd.

Thank you to the Senedd for organising Red Nose Day. Hundreds of red noses were sold on the school yard and all pupils came to school dressed as a superhero. Everyone looked great. Thank you to our pupils and their families for being so generous. We also dressed up as our favourite characters on World Book Day. We enjoyed a day full of activities and games based on books.

Dydd Gŵyl Dewi ac ymweliad "Pluck and Squeeze"/St David's Day and Pluck and Squeezee's visit

Cawsom ddiwrnod i'w gofio ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni. Daeth pob plentyn i'r ysgol yn eu gwisg Gymreig neu ddillad coch. Cawsom amser gwych yn ein twmpath dawns gyda'r cwmni "Pluck and Squeeze". I goroni'r cyfan, aeth ein Llysgenhadon i Farchnad Pontypridd i brynu pice ar y maen i bawb ac roeddent yn flasus iawn.

We had an unforgettable day on St David's Day. All children came to school in their traditional Welsh clothes or red clothes. We had a fantastic time in the twmpath with the company Pluck and Squeeze. The Ambassadors went to Pontypridd Market and bought Welsh cakes for us all. They were delicious.

Ewch i/*Remember to visit*

www.yggevanjames.co.uk

Sioe "Byw Drwy'r Blits"/Living Through the Blitz

Diolch yn fawr i'r cwmni "Mewn Cymeriad" am ddod i'r ysgol i berfformio'r sioe "Byw Drwy'r Blits" i ddosbarthiadau Pwyll a Rhiannon, Blodeuwedd a Culhwch ac Olwen. Roedd y sioe'n cyd-fynd yn berffaith gyda thema'r dosbarthiadau y tymor hwn, yr Ail Ryfel Byd.

Pupils from Dosbarth Pwyll a Rhiannon, Blodeuwedd and Culwch ac Olwen thoroughly enjoyed the show "Living Through the Blitz" as they have been studying the Second World War this term.

Clybiau / Clubs

Mae'r clybiau wedi ailddechrau. Cofiwch edrych ar y Dojo i gael gweld beth sydd ar gael.

The clubs have restarted. Remember to look at the Dojo to see what's available.

Timau pêl-droed yn mynd o nerth i nerth / Football teams going from strength to strength

Mae timau pêl-droed yr adran iau wedi cael profiadau lu yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth dros y misoedd diwethaf. Maent yn hyfforddi'n galed ac maent wrth eu boddau'n chwarae yn erbyn ysgolion eraill.

The football teams in the junior department have had several opportunities to play in competitions over the past few months. They train very well and they thoroughly enjoy playing against other schools.

Presenoldeb/Attendance

Ar ôl gwyliau'r Pasg, yn unol â pholisi'r ysgol, ni fyddwn yn awdurdodi ceisiadau am wyliau os ydy presenoldeb eich plentyn o dan 95%. Nid ydym yn cyfri absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn y canran hwn.

After the Easter break, in line with the school's policy, we will not authorise holiday applications if your child's attendance is under 95%. We do not take COVID-19 absences into account when calculating the percentage.

Ewch i/*Remember to visit*
www.yggevanjames.co.uk